

lechyd a Diogelwch – Taflen Ganllaw GS1

Rheoli Eira a Rhew – Canllaw i Reolwyr Safle a Phenaeithiaid

Rhifyn: 4

Dyddiad: Hydref 2020

Dyddiad Diwygio: Hydref 2022

Cyflwyniad

Mae'r canllaw wedi cael ei baratoi i gynorthwyo Rheolwyr Safle a Phenaeithiaid Ysgolion i reoli'r risgiau o eira a rhew yn effeithiol yn ystod cyfnodau o dywydd oer.

Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf yma i dynnu sylw at y ffaith ei bod hi'n bosibl y bydd raid adolygu a diweddarau gweithdrefnau rheoli eira a rhew ar safleoedd i ystyried mesurau rheoli ychwanegol a allai fod gan safleoedd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Er enghraifft, mae'n bosibl bod systemau unffordd ar gyfer cerddwyr bellach wedi'u rhoi ar waith mewn safleoedd i gydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol – mae modd i hyn fod yn arbennig o wir mewn ysgolion o ran rhieni'n dod â disgyblion i'r ysgol ac yn eu casglu nhw.

Mae'n bosibl y bydd cyflwyno systemau unffordd o'r fath, neu ffyrdd eraill o reoli cerddwyr o amgylch y safle i gydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol, bellach yn golygu bod llwybrau newydd i gerddwyr ar y safle na fyddai wedi bod ar waith yn y gorffennol.

Rhaid ystyried unrhyw lwybrau newydd o'r fath yng ngweithdrefnau rheoli eira a rhew'r safle.

(Dylid gwirio llwybrau cerddwyr hefyd am beryglon llithro a baglau heblaw eira a rhew, er enghraifft, pentyrrau o ddail wedi cwmpo / slabiau palmant rhydd. Dylid chwilio hefyd am beryglon posibl eraill – er enghraifft, sicrhau bod canllawiau/rheiliau llaw wedi'u gosod ar risiau lle bo angen, bod llwybrau i gerddwyr wedi'u gwahanu oddi wrth lwybrau i gerbydau a bod goleuadau allanol addas os yw'r safle'n cael ei ddefnyddio pan fydd hi'n dywyll.

At hynny, os yw llwybrau newydd i gerddwyr a gyflwynwyd yn gwneud defnydd o ddrysau / gatiâu nad oedden nhw'n cael eu defnyddio o'r blaen, gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beryglon newydd yn cael eu cyflwyno o ganlyniad, er enghraifft, drysau a allai gau'n glep yn y gwynt neu blant ifainc yn dal bysedd mewn drysau / gatiâu yn yr ysgol.)

Rhan y Cyflogwr

Mae'n ddyletswydd ar gyflogwyr o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch i gymryd camau 'rhesymol' i ddarparu gweithle diogel i weithwyr, gan gynnwys llwybrau diogel i mewn ac allan o'r man gwaith a llwybrau diogel o amgylch y safle gwaith, o fewn cwrtlau'r safle – dyw cyflogwyr ddim yn gyfrifol am lwybrau y tu allan i gwrtlau'r safle, megis y priffyrdd cyhoeddus, ffyrdd, strydoedd a phalmentydd.

Mae hefyd ddyletswydd ar gyflogwyr i sicrhau diogelwch unrhyw ymwelwyr. Fel y cyfeiriwyd uchod, mae modd i hyn gynnwys rhieni mewn ysgolion lle mai mynediad y safle yw'r unig ffordd ymarferol o reoli dod â disgyblion i'r ysgol a'u casglu wrth reoli gofynion cadw pellter cymdeithasol yn ddiogel.

Rôl y Rheolwr Safle / Penaethiaid Ysgol

Rhaid i Reolwyr Safle sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am adeiladau'r Cyngor, a Phenathiaid ysgolion, sicrhau bod trefniadau digonol yn cael eu gwneud i leihau'r risgiau o ganlyniad i eira a rhew, i weithwyr ac ymwelwyr, a bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i alluogi'r sefydliad i aros ar agor yn ôl yr arfer.

Er mwyn gwneud hyn, dylai Rheolwyr Safle / Penaethiaid wneud y canlynol:

1. **Sicrhau bod Aseidiadau Risg yn cael eu cynnal**, defnyddio data sydd ar gael yn barod fel ystadegau damweiniau a phrofiad o'r gorffennol, ac ystyried unrhyw beryglon posibl newydd sy'n codi o ganlyniad i fesurau rheoli sydd ar waith yn sgil COVID-19.

Sicrhewch fod gyda chi gynllun wrth gefn yn barod os bydd raid osgoi defnyddio unrhyw lwybr penodol.

2. **Sicrhau bod archwiliad o'r safle cyn y gaeaf**, gan dalu sylw arbennig at gwteri a phibelli sy'n gollwng, yn enwedig lle maen nhw ar lwybrau i gerddwyr a cherbydau. Dylai'r rhain gael eu hatgyweirio fel blaenoriaeth cyn i'r tywydd oer ddechrau er mwyn osgoi rhew.

Dylai draeniau a chysiau dŵr hefyd gael eu gwirio am rwystrau. Dylid sicrhau bod tyllau archwilio, siambr archwilio a draeniau dŵr wyneb yno i atal pobl rhag llithro / syrthio ac i atal eitemau rhag cwmpo i mewn a blocio draeniau, a dylai'r gorchuddion hefyd fod mewn cyflwr da ac yn ffitio'n iawn i fframiau i atal pobl rhag baglu.

3. **Sicrhau bod llwybrau ar gyfer clirio eira/graeanu wedi'u blaenoriaethu**, gan roi ystyriaeth i ddefnyddio cynllun safle â chodau lliw sy'n tynnu sylw at y manau ar gyfer blaenoriaeth, er enghraifft:
- a. **Blaenoriaeth 1** (Uchaf) – prif lwybrau mynediad, llwybrau dianc rhag tân, grisiau, rampiau;
 - b. **Blaenoriaeth 2** (Hanfodol) – llwybrau troed o'r maes parcio i'r prif adeilad; a,
 - c. **Blaenoriaeth 3** (Dymunol) – llwybrau troed sydd ddim yn brif lwybrau mynediad.

Sicrhewch fod unrhyw lwybrau newydd yn sgil cyflwyno mesurau rheoli COVID-19 yn cael eu hystyried.

4. **Sicrhau bod protocolau wedi'u sefydlu** – ar gyfer monitro amodau a phenderfynu ar amllder ac amseru'r graeanu, ac a oes angen cau rhannau o'r safle.
5. **Sicrhau bod Systemau Gwaith Diogel yn cael eu datblygu:**
- a. Ar gyfer defnyddio offer graeanu, e.e. rhaw, brwsh, peiriant taenu graean;
 - b. Ar gyfer clirio eira, gan gynnwys:
 - pa gyfarpar y dylai gael ei ddefnyddio, h.y. rhaw, brwsh;
 - faint o bobl ddylai fod yn rhan o glirio eira, gan ystyried, os oes rhagor o lwybrau mynediad / allanfa newydd, bydd yn cymryd rhagor o amser i gyflawni'r graeanu;
 - cyfarwyddiadau penodol i beidio â defnyddio dŵr poeth i ddadrewi llwybrau.
6. **Wrth benderfynu pa fath o gyfarpar y dylid eu defnyddio, dylid sicrhau bod y pwyntiau canlynol yn cael eu hystyried:**
- a. A yw'n addas at y diben?
 - b. Ble mae'n cael ei gadw?
 - c. Pwy sy'n ei gynnal?
 - d. Pwy sy'n cael ei ddefnyddio?
 - e. Oes angen hyfforddiant cyn ei ddefnyddio?
7. **Dirprwyo cyfrifoldeb dros:**
- a. Archebu halen / graean a monitro lefelau'r cyflenwad;
 - b. Penderfynu pryd, a pha mor aml mae graeanu yn digwydd;
 - c. Graeanu, clirio eira a rhew, ail-lenwi biniau graean;
 - d. Cadw cofnodion o'r gweithgareddau graeanu a chlirio eira sydd wedi'u gwneud.

8. **Sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei roi i'r holl unigolion sy'n ymwneud â chlirio eira a rhew**, er enghraifft:
- Menig amddiffynnol;
 - Esgidiau â gafael da / gwadn anllithrog;
 - Dillad llachar a chynnes.
9. **Lle bo'n briodol, darparu hyfforddiant addas i weithwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau clirio eira a rhew**, er enghraifft:
- Hyfforddiant symud a thrin;
 - Hyfforddiant i ddefnyddio cyfarpar.
10. **Sicrhau bod halen / graean yn cael ei storio'n briodol**, yn unol ag argymhellion y gwneuthurwyr / cyflenwyr, mewn lleoliadau amrywiol ar y safle.
11. **Datblygu systemau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chylchredeg yn effeithiol**, i weithwyr, ymwelwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Cyfrifoldebau'r Gweithwyr

Mae dyletswydd ar bob gweithiwr i ofalu am ei ddiogelwch ei hunan. Er mwyn lleihau'r risg o anaf mae'n bwysig bod gweithwyr yn mabwysiadu dull synnwyr cyffredin, er enghraifft:

- Cerdded, peidio â rhedeg;
- Gwisgo esgidiau sy'n addas ar gyfer yr amodau;
- Ceisio gadael dwylo yn rhydd i gynorthwyo cydbwysedd, a/neu i leihau'r effeithiau os ydych chi'n llithro, baglu neu'n cwmpo;
- Gadael rhagor o amser ar gyfer eich taith;
- Gochel rhag llithro wrth gerdded, yn benodol wrth ddefnyddio grisiau a rampiau;
- Os ydych chi'n gyrru, gochel rhag sgidio wrth adael meysydd parcio heb eu graeanu;
- Rhoi gwybod am amodau peryglus.

Rhagor o Wybodaeth ac Arweiniad

Rheoliad 12 o Reoliadau *Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles)* 1992

<https://www.hse.gov.uk/pubns/books/l24.htm>

Canllaw yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: *Rheoli Iechyd a Diogelwch (HSG 65)*

<https://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg65.htm>

Canllaw gan y Llywodraeth: *Clirio eira oddi ar ffordd, llwybr neu lwybr beicio*

<https://www.gov.uk/clear-snow-road-path-cycleway>

Dogfen ganllaw'r Garfan Iechyd a Diogelwch:

Llawlyfr Iechyd a Diogelwch Gofalwyr Ysgol: Rhifyn 1, Mawrth 2019 (Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael gan y Garfan Iechyd a Diogelwch).

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r ddogfen ganllaw yma, cysylltwch â'r Garfan Iechyd a Diogelwch: dros y ffôn 01443 425531; neu drwy e-bost CarfanIechydaDiogelwch@rctcbc.gov.uk

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg